Cenn@d

GORFFENNAF 9 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 228

# Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru Eglwys Gymraeg Canol Llundain, 19–20 Mehefin 2025

## Tarian Ffydd

Gŵyr y cyfarwydd ei bod yn arferiad cynnal Cyfarfodydd Blynyddol Adran Gymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru yn eglwys y darpar Lywydd, ac felly bu cryn edrych ymlaen at y gynhadledd eleni gan mai'r Parchg Robert Nicholls, gweinidog Eglwys Gymraeg Canol Llundain, oedd i'w urddo'n Llywydd. Syndod oedd deall nad dyma'r tro cyntaf i'r cyfarfodydd cael eu cynnal dros y ffin, ond dyma'r tro cyntaf i'r Undeb ymweld â Llundain. Ac roedd croeso Cymreig twymgalon iawn yn disgwyl y cynrychiolwyr lu a fentrodd i'r ddinas fawr. Thema'r gynhadledd oedd 'Tarian Ffydd'.

Wrth gyrraedd y gynhadledd derbyniodd pawb gopi o Lawlyfr yr Undeb oedd yn cynnwys 'Braslun o Hanes Bedyddwyr Llundain' gan y Parchg Ddr Densil Morgan, cerdd i gofnodi'r Undeb gan Euron J. Walters ynghyd â rhestr o gynadleddau UBC ers ei sefydlu yn 1866.

**Croeso ac addoliad agoriadol dydd Iau:** Y Parchg Ddr Rosa Hunt, gweinidog y Tabernacl Caerdydd, oedd yn gyfrifol am y defosiwn agoriadol. Yn dilyn gair o groeso gan y Parchg Rob Nicholls, cyfeiriodd Rosa at rai adnodau a gorchmynion yn y Beibl oedd yn anodd eu cymryd yn llythrennol, gan gyflwyno enghreifftiau ohonynt. Fodd bynnag, roedd rhai adnodau a gorchmynion yn aros yn ddiysgog, sef mai cariad yw Duw ac y dylai'r sawl sy'n caru Duw garu ei gyd-aelod hefyd, oherwydd yr ydym ni'n caru am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni.

**Yr Eisteddiad Cyntaf:** Cadeiriwyd y cyfarfod busnes gan y Llywydd, y Parchg Geraint Morse, pryd y derbyniwyd a chymeradwywyd adroddiadau pwyllgorau, byrddau, a chynghorau'r Undeb. Rhan o weithgaredd y Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas yn ystod 2024 oedd cynnal apêl ar y cyd â Chymorth Cristnogol ar gyfer Zimbabwe.




Mr Pete Moorey, Pennaeth Eglwys a Chymuned Cymorth Cristnogol



Felly hyfrydwch oedd croesawu Mr Pete Moorey, Pennaeth Eglwys a Chymuned Cymorth Cristnogol, i roi anerchiad byr am waith Cymorth Cristnogol. Yn ei sylwadau cyfeiriodd at oedfa arbennig a gynhaliwyd yn Abaty Westminster, Llundain, i nodi pen-blwydd y mudiad yn 80 oed lle roedd y Parchg Rob Nicholls yn bresennol ac yn cynrychioli'r Undeb. Yn ogystal, derbyniwyd neges ar ffurf fideo oddi wrth Aulline Chapisa, Cyfarwyddwr Gwlad Cymorth Cristnogol Zimbabwe, yn mynegi gwerthfawrogiad am y rhodd ariannol a dderbyniwyd.

Rhoddwyd diweddariad am drefniadau newydd rhanbarthol yr Undeb gan y Parchg Simeon Baker a Dr Christian Tucker-Williams, a chynhaliwyd cwis hwyliog am y cynlluniau arfaethedig ar format *Who wants to be a Millonaire*. Estynnwyd croeso hefyd i gyfreithwyr yr Undeb, sef Mr Gerald Kidd, Mr Chris Perkins a Mrs Emily Fellows o gwmni Pothecary, Witham, Weld.

**Yr Ail Eisteddiad:** Yn dilyn cinio blasus yn Neuadd Eglwys Gymraeg Canol Llundain aed ati yn y prynhawn i ganolbwyntio ar waith y Gorfforaeth a'r Cyfrifon. Cymeradwywyd newidiadau i erthyglau Corfforaeth UBC yn unol ag arfer da. Wrth gyflwyno'r cyfrifon, braf oedd croesawu Mrs Beci Jones, Uwch Swyddog Cyllid, fel aelod newydd o'r tîm. Yn ogystal, cyflwynwyd y darpar Is-lywydd, sef y Parchg Ddr Rosa Hunt, ac estynnodd wahoddiad i bawb i Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb 2026 yn Eglwys y Tabernacl, Caerdydd.

**Croesawu Cynrychiolwyr yr Enwadau:** Hyfrydwch oedd gwahodd cynrychiolwyr y gwahanol enwadau i'r pryd hwyrol. Estynnwyd croeso i'r Parchg Owain Llŷr Evans, Caerdydd, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; y Parchg Aneurin Owen, Llansannan, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru; y Parchg Ddr Leslie Griffiths, yr Eglwys Fethodistaidd; y Parchg Dyfrig Lloyd, Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, yr Eglwys yng Nghymru;

(parhad ar y dudalen nesaf)

O'r galon
Tudalen 4

Datblygiad Cyffrous yn Hanes Cynnal a'r Stafell Fyw
Tudalen 5

O Gefn Gwlad
Tudalen 8

## *Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru Eglwys Gymraeg Canol Llundain, 19–20 Mehefin 2025*

*(parhad o dudalen 1)*

y Parchg Aled Davies ar ran Cytûn; a Mrs Moyra Greaney, Cadeirydd Eglwysi Cymraeg Llundain. Y Parchg Owain Llŷr Evans a fu'n enau drostynt a chyfeiriodd at yr enwadau fel darnau chwâl mewn ffenest liw gan ddweud mai bychan yw ein cyfraniad unigol i waith y deyrnas, ond fel y darnau chwâl mewn ffenestr liw, o'u rhoi at ei gilydd roeddent yn creu campwaith. Yn yr un modd roeddem ninnau fel aelodau unigol, wrth uno â'n gilydd, yn creu campwaith ac yn gwneud cyfraniad annatod i ffenestr liw'r Deyrnas.




Dr Gethin Matthews, Prifysgol Abertawe, a gyflwynodd ddarlith y Gymdeithas Hanes

**Oedfa'r Weinidogaeth:** Yn dilyn y te croeso, croesawyd y gweinidogion newydd ac fe gafodd y Parchg Hannah Smethurst, Caersalem, Caernarfon, ei chyfarch gan y Llywydd, y Parchg Geraint Morse. Roedd yr oedfa hefyd yn gyfle i gofio'n annwyl am y gweinidogion a fu farw yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y Parchg Aled Davies a'r Parchg Eirian Wyn Lewis. Traddodwyd pregeth rymus gan y Parchg Denzil John yn seiliedig ar eiriau'r Apostol Paul, sef 'Am hynny, gan fod y weinidogaeth hon gennym trwy drugaredd Duw, nid ydym yn digalonni' (2 Cornithiaid 4:1). Pwysleisiodd mai un ydym ni, pawb â'i bwyslais gwahanol ond ein bod i gyd yn cyfrannu i'r un weinidogaeth. Cyfeiriodd at weinidogaeth yr unigolyn, gweinidogaeth yr holl saint a gweinidogaeth Duw ei hun. Roedd y neges yn glir ac yn galonogol, sef bod gallu Duw yn drech na'n sefyllfa, ein gwendidau a'n gorthrwm. Duw sydd yn y canol yn cyflwyno i ni weinidogaeth lawn gras. Cyhoeddwyd y fendith gan y Cyn-lywydd, Mr Bill Davies, Caerdydd.

**Defosiwn agoriadol dydd Gwener:** Y Parchg Sian Elin Thomas oedd yn gyfrifol am y defosiwn, gyda chymorth Miss Natalie Morgan a'r Parchedigion Deb Stammers a Hannah Smethurst. Seiliodd Sian Elin ei sylwadau ar Lythyr Cyntaf Paul at Timotheus 5:1–5 gan bwysleisio mai 'Duw cariad yw'. Cyfeiriodd at ei gwaith fel caplan yng Nghartref Glyn Nest a rhoddodd ddarlun hyfryd o fywyd y trigolion yn y cartref a'r pwysigrwydd o ofalu dros eraill.




**Cyflwyniad Mudiad y Chwiorydd:** Llywiwyd cyflwyniad y chwiorydd yn fedrus gan Deb Stammers, Llywydd y Mudiad. Cafwyd adroddiad gan Eleri Lloyd Jones a Gret Evans am eu hymweliad â Lisboa y llynedd i Gynhadledd Chwiorydd Ewrop. Roedd 60 wedi mynychu ac roedd yn amlwg i Eleri a Gret gael profiad gwerthfawr o glywed hanesion y chwiorydd eraill a'r heriau a'r rhwystrau a wynebent o ddydd i ddydd. Yn ogystal, rhoddodd y Parchg Sian Elin Thomas ddiweddariad mewn perthynas â sefyllfa gyfredol cartref Glyn Nest. Estynnodd y darpar Lywydd Gret Evans wahoddiad cynnes i bawb i'r Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghapel Star, sir Benfro, ddydd Iau, 25 Medi.

**Y Sesiwn Genhadol**: Sesiwn i godi calon oedd hon o dan ofal y Parchg Simeon Baker a Mr Carwyn Graves. Pwysleisiodd Simeon yr angen i feddwl yn gadarnhaol am y dyfodol. Cafwyd adroddiad gan Carwyn am yr ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan Gymdeithas y Beibl, sef y 'Diwygiad Tawel', adroddiad calonogol oedd yn nodi'r cynnydd ymhlith pobl ifanc oedd yn mynchu oedfaon. Cyfeiriodd y Parchg Ddr Rhys Llwyd at y cynnydd oedd wedi digwydd ym Mhen-y-groes, Arfon, yn dilyn y penderfyniad i waredu adeilad y capel a chydaddoli â chynulleidfaoedd eraill. Teimlai Rhys fod y cydweithio a gafwyd er daioni i bawb. Soniodd y Parchg Ddr Rosa Hunt am ei gwaith

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru*
*Eglwys Gymraeg Canol Llundain,*
*19–20 Mehefin 2025*

*(parhad o dudalen 2))*



yng Nghapel y Tabernacl, Caerdydd, yn enwedig gyda'r digartref. Unwaith eto tanlinellwyd pwysigrwydd cydweithio a chydweithredu. Soniodd y Parchg Simeon Baker iddo fod ar ymweliad â Brasil, gwlad lle'r oedd Cristnogaeth yn denu miloedd i addoli'r Arglwydd Iesu.

**Darlith y Gymdeithas Hanes**: Ac yntau'n un o blant Eglwys Castle Street a'i dad, y diweddar Barchg Ddr Hugh Matthews, yn weinidog yno, addas iawn oedd estyn gwahoddiad i Dr Gethin Matthews, Prifysgol Abertawe, i gyflwyno darlith y Gymdeithas Hanes. Fe'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Gymdeithas, y Parchg Ddr Densil Morgan. Testun y ddarlith oedd 'Cyfraniad Bedyddwyr Llundain i Fywyd Crefyddol a Chyhoeddus Cymru'. Soniodd Gethin yn benodol am gyfraniad dau o Gyn-lywyddion yr Undeb, sef David Lloyd George, a ddaeth wedyn yn Brif Weinidog Prydain, a John Hinds, Aelod Seneddol. Roedd y cyferbyniad rhwng y ddau gymeriad yn hynod drawiadol. Nodwyd hefyd mai John Hinds fu'n gyfrifol am gyflwyno Beibl y Llywydd i'r Undeb.

**Oedfa'r Llywydd**: Yn dilyn yr hwyrbryd yn y neuadd, daeth tyrfa luosog ynghyd ar gyfer Oedfa'r Llywydd. Croesawyd pawb gan y Parchg Geraint Morse a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mr Rhys ab Owen, y Tabernacl, Caerdydd, a'r Parchg Peter Thomas, Aberystwyth. Y Parchg Judith Morris, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, oedd yn gyfrifol am drosglwyddo'r llywyddiaeth i'r Parchg Rob Nicholls ac offrymwyd Gweddi'r Neilltuo gan y Parchg Ddr Densil Morgan.

Cyfoethogwyd yr oedfa gan ddatganiad arbennig o Salm 23 o waith Euros Rhys Evans, gan Gôr y Tabernacl, Caerdydd, dan arweiniad Shirley Ann, gyda Dafydd Huw yn cyfeilio. Yn ei anerchiad pwysleisiodd y Llywydd newydd mai tarian ysbrydol ac nid milwrol oedd 'tarian ffydd' ac nad ffydd ddoe oedd yn cynnal ffydd heddiw. Yn hytrach, roedd y darian ffydd hon yn fodd i'n hamddiffyn er gwaethaf yr ergydion; yn ein hatgyfnerthu yn ein profiadau wrth iddi droi o'r neilltu yr holl saethau a ddeuai i'n herbyn; a chanddi'r gallu i ddiwallu ein holl anghenion. Heriwyd pawb, gyda'r darian o'u cwmpas, i gamu ymlaen mewn ffydd.

Offrymwyd y fendith gan y Parchg Judith Morris yn absenoldeb y Parchg Peter Dewi Richards, Caerdydd, cyn-weinidog yr eglwys.

**Gweithgareddau ymylol**: Er mai dros ddeuddydd y cynhaliwyd cyfarfodydd swyddogol yr Undeb, trefnwyd digwyddiadau eraill megis cyfarfod arferol yr eglwys a gynhelir bob dydd Mercher, sef 'Canol Dydd, Canol Wythnos, Canol Llundain', pryd y deisyfwyd bendith Duw ar gyfarfodydd yr Undeb ac yn dilyn yr oedfa, cafwyd datganiad ar yr organ gan Andrew Knight, Ysgolor Organ Eglwys Gadeiriol Sant Paul, Llundain.

Paratowyd gweithgaredd hefyd ar y dydd Sadwrn pryd y trefnwyd ymweliad â lleoliadau allweddol yn hanes Bedyddwyr Cymraeg Llundain, sef Capel Providence, Capel Moorfields, Chapel Court, ynghyd â Chapel Annibynnol y Boro. Cafwyd gwledd yn yr hwyr wrth i eglwys lawn fwynhau cyngerdd gan Gôr Llundain, dan arweiniad William Thomas, gyda Manon Browning ar y delyn a Iestyn Evans wrth yr organ, a chafwyd unawdau gan Eleri Gwilym a Trystan Llŷr Griffiths.

Daeth Undeb Eglwys Gymraeg Canol Llundain i ben yn llawen iawn ar y Sul mewn dwy oedfa arbennig dan lywyddiaeth y Parchg Rob Nicholls. Oedfa Gymun Undebol Eglwysi Cymraeg Llundain a gafwyd yn y bore, gyda'r Parchg Owain Llŷr Evans yn bregethwr gwadd. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y Parchedigion Anthony Williams, Wimbledon, a Gwylfa Evans, Harrow, gyda Huw Rhys Evans, Seion, Ealing Green, yn cyhoeddi'r fendith. Y Parchg Ddr Simon Woodman, Eglwys Ganolog y Bedyddwyr, Bloomsbury, oedd y pregethwr gwadd yn yr Oedfa Ddwyieithog a gynhaliwyd yn yr hwyr. Marian Howell a Lynne John, dwy o ddiaconiaid Eglwys Gymraeg Canol Llundain, oedd yn gyfrifol am y defosiwn agoriadol; cyflwynwyd eitem gerddorol gan God's Vision Church a chyhoeddwyd y fendith gan y Parchg Aled Jones, Hampstead.

Wrth gloi, rhaid diolch i'r rhai a fu'n cyfeilio yn ystod yr amrywiol gyfarfodydd, sef Richard Hopkin, Paul Joslyn, Will Thomas a Mike Phillips.

Bu Cyfarfodydd Blynyddol UBC 2025 yn hynod fendithiol ac erys croeso Eglwys Gymraeg Canol Llundain a'r gymdeithas hyfryd a gafwyd yn hir yn y cof, a'r cyfan er clod i Dduw, tarian yr hwn y gwisgwn amdanom mewn ffydd.



*Bonni Davies*
*Llinos Penfold*
*Helen Wyn*

# O'r galon

## Tangnefedd – ffrwyth edifeirwch

'Peidiwch â phryderu am ddim, ond ym mhob peth gwneler eich deisyfiadau yn hysbys i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch. A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu.' (Philipiaid 4:6–7)

Wrth edrych ar anogaeth derfynol Paul i'r Philipiaid, mae perthynas gyd-ddibynnol llawenydd a thangnefedd wedi dod i'r amlwg. Mae bendithion Duw i ni yn yr Efengyl i'w mwynhau yn ein bywyd beunyddiol, fel coeden yn tynnu dŵr a maeth o ddyfnder y ddaear, ac yng ngoleuni gras Duw yn dwyn ffrwyth llawenydd a thangnefedd. Ond yn yr un modd ag yn achos llawenydd, felly hefyd gyda thangnefedd, rhaid i ras Duw fod ar waith ynom i ni weld cynnydd a ffrwythlondeb.

Nid wyf am ailadrodd llawer o'r hyn ddywedais am lawenydd, dim ond dweud bod yr un camau sy'n arwain at lawenydd yn peri hefyd i dangnefedd Duw ein cofleidio. Ond edrychwn ar ddwy adnod ac un egwyddor sydd ymhlyg mewn sicrhau tangnefedd dwyfol yn ein cerddediad gydag Iesu.

**Peidio â phryderu**
Dyma i chi eiriau rhwydd i'w dweud ond anodd iawn i'w byw. Eto, mae'r gorchymyn mor ganolog i neges Iesu fel bod rhan helaeth o'i Bregeth ar y Mynydd yn dysgu ac yn annog ar hyn. Canlyniad diymwad teyrnasiad Duw o'n mewn yw na ddylem bryderu – ystyriwch lili'r maes neu adar yr awyr – a'r siars fod ein Tad nefol yn ein nabod a'n caru. Os yw Crist ar orsedd y galon, pa le sydd i ni bryderu?

Bûm am ddegawdau'n ystyried nad oeddwn yn un o natur bryderus. Cyffes fy neall, a hyd y gwyddwn fy nghalon hefyd, oedd fy mod yn ymddiried yn llwyr yn yr Arglwydd a'i ddaioni. Ond yna fe'm dwysbigwyd gan yr Ysbryd wrth wrando ar bregeth am ddicter pryd defnyddiodd y pregethwr, y diweddar Timothy Keller, esboniad am ein teimladau. Fe esboniodd y gwahaniaeth rhwng **gofal** a **phryder** fel hyn: **at bwy ydw i'n edrych am ateb?**

Mae gofalon yn rhan annatod o fywyd; yn wir, y mae Duw ei hun yn rhoi gofalon i ni (gweler Duw yn siarsio Adda i ofalu am ardd Eden fel enghraifft gynnar). Ond maent yn feichiau gofal yr ydym i geisio ei gymorth ef i'w cario. Allwch chi feddwl am adnodau sy'n dysgu hyn (e.e. 'Bwrw dy faich …', 'Dewch ataf fi …')? Fel mae Iesu a Paul yn ein dysgu, rydym i edrych at Dduw a'i ddarpariaeth ef i'n cynnal.

**A bydd tangnefedd Duw … yn gwarchod**
Os ydym yn derbyn disgyblaeth yr Arglwydd ac yn dewis byw bob dydd â'n llygaid ar awdur a perffeithydd ffydd, yna mi FYDD tangnefedd Duw yn gwarchod dros ein calonnau a'n meddyliau, waeth beth fo'n hamgylchiadau.

A dyma lle mae ail ran esboniad Timothy Keller wedi fy narbwyllo'n llwyr. Dywed yn syml mai pryder yw gofal yr wyf yn edrych ataf fy hun, fy amgylchiadau neu at rywun arall i'w cyflawni, yn lle fy mod yn edrych at Dduw i gyflenwi fy angen. Peidiwch â'm camddeall: rydym i fod yn ffyddlon gyda'r gofalon sydd gennym, ond rhaid eu cario yng ngoleuni Mathew 6 ac 11, a Philipiaid 4.

Yn y bôn, nid yw pryder yn ddim mwy nag eilunaddoliaeth. Dyma'r goleuni a daflwyd i 'mywyd i: nid fy mod yn 'teimlo' yn bryderus, ond fy mod, wrth ddychwelyd byth a beunydd at yr un meddyliau ac yn troi a throsi o'u cylch, mewn gwirionedd yn rhoi fy hun yn y canol. Fel Pedr wedi iddo golli golwg ar Iesu, roeddwn yn suddo bob tro. Dyma sut roedd y lleidr yn dod dros y wal (gweler Ioan 10) ac yn dwyn fy nhangnefedd. Tybed beth yw eich stori chi?

Y llwybr at dangnefedd yw edifarhau gan roi gorsedd ein calon yn ôl i Iesu. Mae Rhufeiniaid 8 yn dangos i ni'n glir nad yw byw ar wastad y cnawd yn fyw ar wastad yr Ysbryd. O ganfod fy mod ar wastad y cnawd, rhaid edifarhau a dychwelyd drwy'r porth cyfyng ato ef. Allwn ni ddim mwynhau ffrwyth edifeirwch heb yr edifarhau. A dyna yw tangnefedd a llawenydd, ynghyd â'r holl agweddau ar ffrwyth yr Ysbryd, canlyniad gwrthod ffrwyth y cnawd a marw i ni ein hunain er mwyn byw iddo ef.

Ond peidiwch â gadael yr ychydig hyn o eiriau gan gamgymryd dwysbigo'r Ysbryd am gondemniad yr un drwg. Mae edifeirwch yn arwain at lawenydd a thangnefedd; mae condemniad yn eu dwyn. Wedi gweld ein hunanddibyniaeth a dychwelyd ato, yna mae tangnefedd yn teyrnasu yn absenoldeb cynnen yn y galon.

Tybed beth sydd a wnelo hyn â goddefgarwch?

*Hywel Edwards*
*Rhydaman*

# Galw ar Allah

Wn i ddim beth fyddai f'ymateb i tase rhywun yn gwthio meicroffon o dan fy nhrwyn yn syth wedi rhyw drychineb mawr. Fyddai gen i fawr o amynedd, debyg. Efo nhymer i, mae'n beryg y byddwn yn ymateb yn go chwerw, a falle difaru wedyn.

Byddai fy ymateb yn dibynnu ar natur y drychineb, siŵr o fod. Petai fy nghartref wedi ei ddymchwel gan fom, byddwn yn teimlo fel dial ar y gelyn. Petai rhywrai o'm teulu wedi eu lladd, mwy na thebyg y byddwn y tu hwnt i eiriau, ac yn gwbl fud. Wn i ddim. Dydw i erioed wedi meddwl am y peth o'r blaen, a gan mod i'n byw bywyd go gyfforddus yn y Gorllewin, gwn nad oes raid i mi dreulio lot o amser yn meddwl am y peth. Prin iawn ydi'r siawns fod rhywbeth felly yn mynd i ddigwydd i mi.

Rydw i'n teimlo'n ddigon cyfforddus yn fy nghartref. Mae gen i gymdogaeth glên a bywyd difyr. Dydw i ddim yn ofni'r nos yn fy ngwely clyd. Gwn y bydd bwyd ar y bwrdd i mi'r diwrnod canlynol. Dwi'n ffodus i gael iechyd da, a tase rhywbeth yn digwydd i mi, byddai nyrsys a doctoriaid yn Ysbyty Gwynedd yn gofalu yn arbennig o dda amdanaf.

A dwi'n cymryd hyn oll yn gwbl ganiataol, fel llawer un fydd yn darllen y geiriau hyn. Mi ddiolchaf am yr holl fendithion hyn yn y capel ar ddydd Sul – ac mae'n ddigon posib mai dyna'r tro olaf i mi grybwyll enw Duw tan y Sul nesaf.

Mor wahanol ydi amodau byw yn Gaza y dyddiau hyn. Does gan bobl Gaza ddim tai, gan eu bod wedi eu dymchwel. Mae'r gymdogaeth oedd yn eu cynnal wedi mynd. Fedran nhw ddim cysgu'n dawel yn y nos gan fod dronau uwch eu pennau, a does wybod pryd y bydd bom yn disgyn arnynt. Does dim bwyd yn eu haros yfory, ac os byddant yn mentro i ganolfan gymorth, mae tebygrwydd cryf iawn y cânt eu saethu. O gael eu hanafu gan fwledi Israel, does dim ysbytai i fynd iddynt, does dim doctoriaid i wella eu doluriau.

Does yna fawr ddim yno bellach. Dydy'r ffilmiau mwyaf apocalyptaidd a'r straeon mwyaf erchyll fu ar ein sgrin ddim yn dod yn agos at y profiad o geisio goroesi yn Gaza heddiw. Mi wyddoch hyn, mae'n stori gyfarwydd iawn, ac wedi blwyddyn a hanner, rydym yn blino ei chlywed. Mi dawaf. Ond cyn gwneud hynny, af yn ôl at y cwestiwn a holais ar y dechrau.

Erbyn hyn, rydw i wedi gweld ugeiniau o gyfweliadau efo Palestiniaid sydd wedi dioddef trawma. Ychydig iawn sy'n chwerw, ychydig iawn sy'n fud. Yr hyn sydd wedi fy nharo i dro ar ôl tro yw eu hurddas, yn gymysg efo'u gofid, ond yn fwy na dim – eu ffydd. Siŵr iawn eu bod yn drist, ond yn aml iawn, maent yn cyfeirio at Allah, neu Dduw. Maent yn diolch fod y rhai fu farw wedi cael osgoi dioddefaint pellach, ac maent yn galw ar enw Allah. Mae eu ffydd yn gadarn yn eu duw, yn gwbl ddi-syfl. Allah sy'n cysuro, Allah sy'n gofalu, Allah sy'n darparu hyd yn oed yng nghanol uffern eu dioddef.

Mae hyn wedi gwneud argraff ddofn arnaf i, ac wedi peri i mi anesmwytho. Mae gen i gymaint o gysuron y byd, ond gwan iawn yw fy ffydd o'i gymharu efo dinasyddion Palestina. Siawns nad oes gwers inni yn hyn.

*Angharad Tomos*
*Gyda diolch i Cristnogaeth21*

# Datblygiad Cyffrous yn Hanes Cynnal a'r Stafell Fyw

Bydd llawer o eglwysi'n cofio Cyngor Alcohol a Chyffuriau Cymru, sef y corff a grëwyd drwy gyfuno sawl grŵp lleol a fu'n gweithio o blaid dirwest ar hyd yr ugeinfed ganrif. Aeth drwy sawl cyfnewidiad dros y degawdau, gan brofi llwyddiant weithiau a rhwystredigaeth ar adegau eraill. Diolchwn wrth gofio am yr ymgyrchu lleol pan lofnododd llawer o aelodau eglwysi'r 'Pledge', yn tynnu llw i ymwrthod yn llwyr ag alcohol yn ystod y degawdau cynnar. Yn ystod y cyfnod yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, bu ymgyrchu drwy ymweld â chanolfannau ieuenctid ac ysgolion, yn ceisio dangos beth oedd sgileffaith alcohol. Ceisiwyd rheoleiddio'r farchnad alcohol a bu llawer o weinidogion yn ymgyrchu yn erbyn agor tafarndai ar y Sul. Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif roedd pob sir yng Nghymru yn caniatáu gwerthu alcohol bob dydd o'r wythnos, ac aeth yfed diodydd alcoholig yn arfer cyffredin nes bod y diodydd hynny i'w gweld ar werth ar feysydd prif wyliau diwylliannol Cymru.

Erbyn troad y ganrif, roedd gwerthu cyffuriau yn rhemp, a'r gwasanaethau meddygol yn cydnabod dibyniaeth ar alcohol a chyffuriau fel salwch. Bellach roedd y Cyngor Alcohol a Chyffuriau wedi cyflogi Wynford Ellis Owen, yr actor a'r diddanwr, fel prif weithredwr, ac un o'i gynlluniau newydd ef oedd sefydlu gwasanaeth y Stafell Fyw. Llwyddwyd i logi nifer o ystafelloedd yn adeilad Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, a bu'r gweithgaredd yn hynod lwyddiannus. Roedd y cwnsela yno yn rhad i'r clientiaid, a braf oedd cofnodi llwyddiant y gwaith. Bydd darllenwyr *Cenn@d* yn cofio 2008 fel blwyddyn yr argyfwng ym myd bancio. O ganlyniad, fe wnaeth llywodraethau'r byd dorri'n sylweddol ar y gwasanaethau ac ni fu modd i'r Stafell Fyw dderbyn nawdd o'r ffynonellau oedd wedi addo cefnogi'r fenter. Daeth diwedd y daith i waddol ariannol y Cyngor Alcohol, a throsglwyddwyd y Stafell Fyw i ofal mudiad CAIS, gyda'i ganolfan yng ngogledd Cymru. Symudodd y Stafell Fyw i rannu adeilad â chorff arall oedd o dan ofal Adferiad Recovery – cyfuniad o dair elusen arall – yng ngorllewin Caerdydd, gan barhau â'r gwasanaeth i raddau sylweddol. Eto, nid oedd amodau gwahanol yn y ganolfan honno, a bu chwilio am ateb amgenach.

Ym 2023 dechreuwyd meddwl am bosibiliadau newydd, a phenodwyd ymddiriedolwyr ychwanegol, gan gynnal y freuddwyd o sefydlu gwasanaeth y Stafell Fyw yn ddigidol. Hefyd, roedd gwasanaeth Cynnal wedi ei sefydlu gyda'r Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Bresbyteraidd, Undeb yr Annibynwyr ac Undeb Bedyddwyr Cymru yn cyfrannu at gefnogi gwaith Cynnal er mwyn cynnig gwasanaeth Wynford Ellis Owen i gynorthwyo clerigwyr, gweinidogion, gweithwyr Cristnogol a'u teuluoedd oedd yn cael eu heffeithio yn sgil cam-drin sylweddau neu ymddygiadau niweidiol eraill.

Roedd angen canolfan newydd, a daeth y Stafell Fyw a Cynnal o dan gronglwyd y Cyngor Alcohol a Chyffuriau, a hynny yn rhai o ystafelloedd cefn capel y Crwys yn Ffordd Richmond, Caerdydd. Dymuna'r Cyngor ddiolch i aelodau Eglwys y Crwys a'i harweinydd Thomas Ellis Williams. Hefyd, bu Henaduriaeth Morgannwg Llundain yn hael eu cefnogaeth i'r eglwys fel y gellid addasu'r ystafelloedd hyn i alluogi Wynford Ellis Owen, prif weithredwr y Cyngor, i gynnal sesiynau gyda'r clientiaid mewn man hwylus. Bydd y sawl sy'n gyfarwydd ag ardal y Rhath yn gwybod bod capel y Crwys bron gyferbyn â Choleg y Bedyddwyr.

Gellir cael manylion llawn y gwasanaethau a gynigir wrth ddarllen y deunydd ar y gwefannau isod:
www.cyngor-adferiad.org (Cymraeg)
www.stafell-fyw.uk (Cymraeg)
www.cynnal.uk (dwyieithog)
www.recovery-council.org (Saesneg)
www.living-room.uk (Saesneg)

A dyma fanylion cyswllt Wynford Ellis Owen, ein prif weithredwr: Eglwys y Crwys, 77 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AR; ffôn: 07796464045; ebost: wynford@recovery-council.org

Diolch i nifer o unigolion ac eglwysi am eu cefnogaeth ariannol a defosiynol dros y blynyddoedd. Gobeithiwn y gwelwn gynnydd yn nifer y clientiaid ac y bydd llawer yn gwella o'r ddibyniaeth sy'n goddiweddyd cynifer o bobl bellach. Byddaf i fel cadeirydd y Cyngor, ynghyd â'r Parchg Ifan Roberts, cadeirydd Cynnal, ac Arwel Ellis Owen, cadeirydd Cyfeillion y Stafell Fyw, yn hapus i ychwanegu mwy o wybodaeth am ein cynlluniau ym mhob modd posibl. Mae ein tîm ymddiriedolwyr yn cynrychioli academyddion, cyfreithiwr, pobl sy'n gweithio fel clinigwyr ac arbenigwyr ar wasanaethau digidol yn bwrw ati i ymestyn y gwaith mewn sawl ffordd.

Wrth gwrs, bydd Wynford Ellis Owen, ein prif weithredwr, ar gael i ymateb i bawb sy'n dymuno cael mwy o wybodaeth ac arweiniad ar nod y gwaith. Cynhelir lansiad swyddogol i'r cynllun yng nghyfnod tymor yr hydref. Gweddïwn y bydd Duw yn ein bendithio ac y bydd eglwysi'r holl enwadau yng Nghymru a thu hwnt yn uniaethu â'n gwaith a'n gweledigaeth.

Diolch am bob cefnogaeth.

*Denzil Ieuan John, Cadeirydd*

*Y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill*


## Ogi Ogi Ogwr

Diwedd Mehefin cynhaliwyd diwrnod i'r teulu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sef gŵyl Ogi Ogi Ogwr, a hynny dan nawdd Menter Iaith Pen-y-bont. Roedd cyfle i osod stondinau yn y digwyddiad, a phenderfynodd y Parch. Dylan Rhys, gweinidog Gofalaeth Glannau Ogwr, osod arddangosfa'n dangos gwaith yr eglwys Gymraeg yn y dref. Braf gweld tystiolaeth Gristnogol mewn digwyddiad o'r fath.



# Llyfr y Pregethwr

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 20: Ein cartref bythol**

**Llyfr y Pregethwr 12**

Mae'r awdur bellach yn hen ac wedi cael cyfle i fyfyrio ar ei brofiadau. Daeth yr amser iddo grisialu ei feddyliau a throsglwyddo ffrwyth ei fyfyrdod i'r genhedlaeth nesaf. Yn dilyn ei anogaeth i ŵr ifanc i fwynhau bywyd, cyngor olaf y Pregethwr yw iddo gofio'i Greawdwr. Caiff y gorchymyn i 'gofio' Duw, sy'n golygu cydnabod ei gymorth mewn cyfyngder, gwrando ar ei lais a gwneud ei ewyllys, le amlwg yn y Gyfraith (gw. Deuteronomium 8:11–20). Dyletswydd y llanc yw cofio Duw cyn iddi fynd yn rhy hwyr, cyn iddo golli blas ar fyw am fod ei olwg yn dirywio a threialon yn pentyrru'n ddirybudd, fel cymylau'n 'dychwelyd ar ôl y glaw' (12:1–2).

Esboniad posibl o weddill y paragraff cyntaf yw mai disgrifiad o'r corff dynol yn heneiddio sydd yma (12:3–5). 'Ceidwaid y tŷ' yw'r coesau sy'n dioddef o gricymalau; 'y dynion cryf' yw'r breichiau'n colli eu nerth; y merched yn methu malu yw'r dannedd sy'n prinhau; 'y rhai sy'n edrych trwy'r ffenestri' yw'r golwg yn dirywio; awgrymir byddardod wrth i gân yr adar 'ddistewi'. Cyfeiriad yw'r 'pren almon', sy'n troi o binc i wyn wrth aeddfedu, at wallt yn britho. Y ceiliog rhedyn, sy'n 'ymlusgo'n feichus', yw'r henoed sy'n cael eu caethiwo gan lesgedd.

Arwyddion yw'r rhain i gyd fod rhywun yn nesáu at ddiwedd oes. Gan ei fod 'ar fynd i'w gartref bythol', daw'r galarwyr proffesiynol ynghyd, yn barod i roi llais i alar y gymuned. Mae'n werth darllen fersiwn beibl.net o'r bennod hon gan ei fod yn bwrw goleuni amgen ar rai adnodau.

Symbol arall sy'n gysylltiedig â marwolaeth ym meddwl yr awdur yw dinistr celfi cyffredin (12:6): llestr aur yn malu am fod y llinyn arian sy'n ei ddal wrth y nenfwd yn torri; piser wrth y ffynnon yn malurio; olwyn i godi dŵr o'r pydew yn torri. Yna, gydag ymadrodd sy'n adlais o stori'r Creu yn Genesis 2–3, mynegir tynged anochel dynoliaeth. Bydd y corff yn dychwelyd i'r ddaear y crëwyd ef ohoni a'r 'anadl einioes' a anadlodd Duw iddo'n mynd yn ôl at yr Un a'i rhoddodd.

Daw'r Pregethwr â'i sylwadau i ben gyda'r un arwyddair ag a ddefnyddiodd ar ddechrau'r bennod gyntaf: 'Gwagedd llwyr, gwagedd yw'r cyfan'. Nid bwriad ei sylwadau yw datrys problemau na chynnig ateb i gwestiynau dyrys, ond yn hytrach mynegi rwystredigaethau bywyd daearol.

Nid bod bywyd ei hun yn ofer. Gwnaeth yr awdur hynny'n glir wrth annog mwynhau o fewn rheswm bleserau syml bywyd. Ond mae'n ein harwain i wynebu'r ffaith nad oes 'o dan yr haul' ateb i gwestiynau megis beth yw ystyr bywyd, pam mae'r diniwed yn dioddef, sut y mae'r byd yn gweithio.

**Epilog**

Mae'r adran olaf yn rhannu'n ddwy ran: adnodau 9–11 ac adnodau 12–14. Yn y rhan gyntaf tynnir sylw at weithgarwch yr awdur gan ei bortreadu fel un a chanddo swydd gydnabyddedig o fewn y gymdeithas. Rhydd iddo'r teitl canmoliaethus 'doeth', a'i ddisgrifio fel 'un sy'n dysgu deall i'r bobl'.

Ond mae'r awdur am inni sylweddoli hefyd fod y Pregethwr yn fwy nag athro a llenor. Yn ei ddisgrifiad ohono rhydd bwyslais arbennig ar ei allu beirniadol. Nid cymhwyster i lenydda a chyfathrebu yw unig nodwedd y llyfr. Ceir ynddo hefyd dystiolaeth eglur o ddawn y Pregethwr i fesur a chloriannu ei dreftadaeth lenyddol. Mae'n 'pwyso', yn 'chwilio' ac yn 'gosod mewn trefn' lawer o ddiarhebion, yn ogystal â cheisio 'cael geiriau dymunol' (h.y. addas) a 'chywir' ar gyfer pob achlysur.

Yn ail hanner yr epilog mae'r awdur yn gorchymyn ei ddisgybl, 'fy mab', i beidio ag ychwanegu at y llyfr. Ar wahân i'r ffaith fod 'astudio dyfal' yn waith blinderus, nid oes angen dweud mwy am y pynciau a drafodwyd. Mae ymdriniaeth gynhwysfawr y Pregethwr wedi dweud yr hyn sy'n angenrheidiol. A rhag ofn bod unrhyw amheuaeth ynglŷn â gwerth y gwaith yn dal i lechu ym meddwl y darllenydd, crynhoir neges y llyfr mewn un frawddeg: 'Wedi clywed y cyfan, dyma swm y mater: ofna Dduw a chadw ei orchmynion' (12:13).

**I gloi**

Wrth astudio Llyfr y Pregethwr rydym wedi sylwi ar ddigalondid a rhwystredigaethau'r awdur ynglŷn â bywyd. Yma, cyfyd cwestiynau oesol am ystyr ein bodolaeth a chyfiawnder cymdeithasol. Pa elw sydd i lafurio'n ddiwyd trwy gydol ein hoes? Beth yw pwrpas y cwbl? Pam mae'r diniwed yn dioddef? Ei gri gyson yw mai ofer – i raddau – yw ein bywydau. Ond y mae'n adleisio cwestiynau sy'n cael eu gofyn heddiw yn 2025.

Er mwyn gwneud synnwyr o Lyfr y Pregethwr, mae'n rhaid inni edrych arno yng ngoleuni'r datguddiad bendigedig yn Iesu o natur, meddwl a bwriad Duw. Yn yr Iesu, ei fywyd, ei ddysgeidiaeth a'i waith achubol, ehangir ein gorwelion i weld sut mae Duw a'i deyrnas yn dod â chymod, ystyr, gobaith a goleuni cyfiawnder i'n byd. Ni ellir deall yr Hen Destament heb y Testament Newydd ac ni ellir deall y Newydd heb yr Hen.

Diolch i chi am ddarllen a dilyn a gwersi.

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Rhowch enghreifftiau o'r ffordd y mae'r Testament Newydd yn ein helpu i ddeall penbleth Llyfr y Pregethwr yn well.
2. I ba raddau y mae'r disgrifiad o eiriau'r Ysgrythur fel 'symbolau' a 'hoelion' sy'n herio yn deffro cydwybod ac yn annog myfyrdod yn wir yn eich profiad chi? (12:11)

Rydym yn cynnig ein diolch a'n gwerthfawrogiad i Alun Tudur am ei waith a'i ofal yn ein tywys drwy Lyfr y Pregethwr yn ystod y flwyddyn hon. Nid tasg hawdd oedd hi, ond cawsom astudiaethau difyr a pherthnasol ganddo. Fe'n hanogodd i ystyried llawer o'r hyn sy'n wagedd yn ein bywydau heddiw fel yng nghyfnod y Pregethwr a sut mae hynny'n ein cymell at y cyflawnder bywyd a geir yng Nghrist. Diolch eto, Alun.

Yn ystod cyfnod yr haf, byddwn yn troi ein golwg eto at Gredo Nicea a'r hyn a geir ynddi ar 1,700 mlwyddiant ei chyfansoddi.

(Gol.)




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru)

# Gair o gyfarchiad a rannwyd gan Owain Llŷr Evans yn Undeb y Bedyddwyr, Llundain

Creadur dinesig ydwyf; wrth fy modd yn y ddinas hon, a dinas Caerdydd yr un modd, ond dw i am fynd â chi o Lundain am ychydig, i bentre Mathern, heb fod ymhell o Gas-gwent. Awn o Eglwys Gymraeg Canol y Ddinas i Eglwys Sant Tewdric a gweld y ffenest sydd ym mhen draw ystlys ddwyreiniol yr eglwys. Gwelir ffenestri tebyg mewn sawl man arall yng Nghymru: Caerwys, Llanfair Cilgedin, Nercwys, Llanfair Dyffryn Clwyd.

Ffenestri ydynt a grëwyd allan o ddarnau chwâl; ffenestri a grëwyd yn newydd gan ddefnyddio darnau o hen hen ffenestri – rhai o'r darnau'n dyddio 'nôl i'r bymthegfed ganrif. Wrth i'r hen hen ffenestri hyn dorri neu gael eu torri, casglwyd a diogelwyd y darnau a chrëwyd ffenest newydd ohonynt.

Mae'r ffenestri hyn yn wirioneddol hardd. Anniben efallai; darniog, bratiog o bosib, ond hardd.

Y darnau chwâl hyn ydyn ni, y gwahanol enwadau a thraddodiadau, pwysleisiau a thueddiadau a gynrychiolir yma heddiw; ein gwaith a'n gweinidogaeth, ein gwasanaeth a'n cenhadaeth. Rydym, ti a minnau, a phobl debyg ac annhebyg i ni yn gweithio a chydweithio i wireddu'r weddi fawr: 'Deled dy deyrnas ... Gwneler dy ewyllys'. Pitw bach yw ein cyfraniad ni fel unigolion; bychan bach cyfraniad pob enwad ac eglwys, ond o'r manylion tardd yr hanfodion. Duw'r manylion yw ein Duw ni. Duw yn sylwi ar y manion, yn eu gwerthfawrogi, yn eu defnyddio, eu trysori. Pa mor fychan bynnag ein cyfraniad ninnau i ddyfodiad Teyrnas Dduw, bydd y darn hwnnw o gyfraniad yn rhan annatod o ffenest liw'r Deyrnas, gan fod y cyfraniad hwnnw wedi bod yn gwbl allweddol i'w dyfodiad hi, ac yn allweddol i'w pharhad tragwyddol hi.

*The symphony all bits and pieces ... no one would understand ... no one ... no one.*

Edward Elgar (1857–1934) piau'r geiriau. Roedd cancr bellach wedi cael gafael tyn arno, ac yntau'n sylweddoli y buasai'n marw cyn medru cwblhau'r symffoni yr oedd ar y pryd yn gweithio arni. Roedd 'na ddarnau brau o'r drydedd symffoni hon yn barod ganddo – *all bits and pieces* – dyna'r cyfan. Bu farw ym 1934 gan adael dim ond y darnau hynny. Chwe deg o flynyddoedd wedi marw Elgar, cafodd y cerddor Anthony Payne y cyfle – a'r cyfrifoldeb arswydus – o dynnu *bits and pieces* Elgar at ei gilydd a gorffen y symffoni anorffenedig. A gwnaethpwyd hynny yn 1997. Ym mis Chwefror 1998 perfformiwyd yr Elgar/Payne Symphony No 3 gan gerddorfa Symffoni'r BBC yn y Royal Festival Hall, Llundain.

Symffoni anorffenedig, *all bits and pieces*, yw ein gweinidogaeth ninnau fel unigolion, ac fel eglwys, eglwysi, fel enwadau ac amrywiol draddodiadau Cristnogol. Ond mae Duw – y cerddor tragwyddol – ar waith yn tynnu'r darnau digyswllt at ei gilydd a chreu cyfanwaith – campwaith – symffoni o fendith, tangnefedd a chyfiawnder.

Yn ei hamrywiaeth y gwelir gogoniant yr Eglwys. Mae angen mwy nag un nodyn i wneud miwsig, a rhagor nag un lliw i dynnu darlun. Yn amrywiaeth y nodau y ceir y felodi. Mewn llun, nid un o'i liwiau a'i gwna'n brydferth, ond yr holl liwiau mewn cynghanedd fawr, a'r cyfuniad yw prydferthwch. Ein hamrywiaeth mewn cynghanedd, dyna yw gwir brydferthwch yr Eglwys fawr. Y prydferthwch hwnnw yw addurn a chadernid tarian ffydd. Boed bendith ar y cyfarfodydd hyn, ac ohonynt, er clod i'r hwn sydd i bawb ohonom yn Arglwydd ac yn Waredwr.

# Arddangos Beiblau Prin yng Nghymru – profiad personol

Llongyfarchiadau i Olygyddion *Cenn@d* (Rhifyn 226) am lwyddo i gynnwys hanes tair arddangosfa o Feiblau prin yng Nghymru: y ddau gopi o'r 'Beibl Mawr' Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd yn y Llyfrgell Genedlaethol, y copi o Feibl William Morgan a gyflwynodd i Abaty Westminster yn 1588 sydd ar hyn o bryd yng Nghadeirlan Tyddewi, a'r newyddion da bod y Tŷ Mawr Wybrnant, ei gartref, wedi'i adnewyddu a'i agor eto i ymwelwyr. Gwaith pleserus a chynhyrfus yn ddiau fydd ceisio ymweld â'r tair arddangosfa yn ystod yr wythnosau nesaf yma.

Yn sgil yr hyn a gyhoeddwyd am y copi o Feibl William Morgan sy'n cael ei arddangos yng Nghymru am y tro cyntaf, carwn gywiro un ffaith sydd wedi'i chyhoeddi yn Cymru Ar-lein, y *Western Mail*, ac yn awr yn *Cenn@d*, sef mai unwaith yn unig o'r blaen y defnyddiwyd y copi arbennig hwn y tu allan i'r Abaty. Adroddir i hynny ddigwydd yn 1988 pan ddathlwyd pedwar can mlynedd y Beibl ac y cyhoeddwyd y *Beibl Cymraeg Newydd*. Yr achlysur oedd gwasanaeth arbennig o ddathliad yn Eglwys Gymraeg Sant Benet ymhellach draw ar lan afon Tafwys.

Ond y mae gennyf brawf personol bod y copi hwn hefyd wedi'i ddefnyddio mewn gwasanaeth yn eglwys enwog Saint Martin-in-the-Fields ddydd Iau, 9 Rhagfyr 1954, a hynny mewn gwasanaeth a drefnwyd dan nawdd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion i goffáu tri chant a hanner o flynyddoedd er ei farwolaeth yn 1604. Mae copi o raglen y gwasanaeth nodedig hwn o'm blaen yn awr a gwelaf ynddi fod Syr John Cecil-Williams, Ysgrifennydd y Cymmrodorion, wedi darllen y llith gyntaf, sef Ecclesiasticus 44:1–15, o Feibl 1588, a Syr Wynn Wheldon, eu Llywydd , wedi darllen yr ail lith, sef 1 Pedr 2:1–10. Traddodwyd yr anerchiad gan yr Athro Emeritus T. H. Parry-Williams. Mae'r achlysur yn fyw yn fy nghof gan mai fi, yn llencyn bron yn un ar bymtheg oed, a ddewiswyd i gludo'r copi hwn o'r Beibl drwy'r eglwys a'i gyflwyno i Ficer yr Eglwys, y Parchedig L. M. Charles-Edwards, disgynnydd i Thomas Charles a Lewis Edwards, iddo ei osod yn y pulpud. Ceir llun ohonof yn cyflawni'r gorchwyl hwn yng nghyfrol T. I. Ellis, *Crwydro Llundain*, a cheir recordiad o'r gwasanaeth yn Archif Sain y Llyfrgell Gendlaethol. Bûm yn sôn am y profiad hwn ar *Post Prynhawn* pan gyhoeddwyd bod y copi hwn o'r Beibl wedi cyrraedd Tyddewi.

*John Tudno Williams*

# O Gefn Gwlad

## Polion

Testun od uwchben cyfraniad i *Cenn@d*, ond falle y gwnaiff o i ambell un sy'n arferol yn mynd heibio'r golofn i ddarllen ymlaen, er nad dyna'i fwriad! Darllenais frawddeg amdanynt mewn llyfr arbennig dro yn ôl, *Nightshade Mother* gan Gwyneth Lewis, sy'n adrodd am berthynas ei mam â hi, perthynas anodd a llyfr anodd i'w sgrifennu, ac nid hawdd i'w ddarllen chwaith, ond yn llawn werth yr ymdrech. Mewn un man mae'n trafod maddeuant ac yn dyfynnu o'r Saesneg lle mae cymeriad arbennig yn sôn am faddau ac yn enwi'r holl bethau yr oedd yn rhaid iddi faddau iddyn nhw os oedd o ddifri, gan gynnwys 'Society, the Law, the Church … the Old Testament … and half a dozen other props of civilisation'. Mae'n rhestr faith, a dim ond blas yw'r dyfyniad hwn, ond yr hyn dynnodd fy sylw yn arbennig oedd y cymal 'props of civilisation'. A gwnaeth y frawddeg imi feddwl.

A minnau wedi fy magu mewn ardal wledig a threulio llawer o'm plentyndod ar ffarm yn yr ardal, daeth dau fath o 'brop' neu bolyn i'm sylw lawer tro. Un oedd polyn tynnu, ac mae un felly ar ddau ben pob ffens. Maent yn fwy na'r lleill, wedi eu sodro'n ddyfnach yn y ddaear, achos y rhain yw'r polion sy'n dal y ffens yn dynn. Unwaith y bydd y naill neu'r llall o'r rhain yn dod yn rhydd ac yn dechrau gwegian, bydd y ffens i gyd yn llacio ac yn colli ei phwrpas a'i heffeithiolrwydd. Dyna pam y gelwir o yn bolyn tynnu.

Y llall yw'r polyn cynnal, ac fe'i gelwir wrth yr enw arall, sef 'prop'. Oes y teisi gwair ac ŷd oedd oes fy mhlentyndod i, yn y cyfnod pan oedd siediau yn prysur fynd yn rhy fach i storio'r gwair a'r ŷd i gyd. Ac er gwaetha ymdrechion gorau ffermwyr i adeiladu teisi cytbwys, solet yn yr ydlan neu mewn congl gysgodol, byddai sawl un o dro i dro yn dechrau gwyro ac mewn peryg o syrthio a chwalu. Bryd hynny gosodid polyn cynnal – neu fwy nag un – yn erbyn y das i'w chadw ar



Llun: Unsplash.com

ei thraed. Roedd hwn fel y polyn tynnu yn un cryf a chadarn.

Fel y ffens a'r das, rhaid i wareiddiad hefyd wrth gynhaliaeth i oroesi. Rhaid wrth lywodraeth ddoeth a chytbwys, a chyfraith deg i gadw trefn. Rhaid wrth amrywiaeth o gelfyddyd, gan gynnwys llenyddiaeth i ddiwyllio deiliaid y gwledydd, ac addysg i'w haddasu ar gyfer bodolaeth yn y byd a'u gwneud yn 'fwy doeth i fyw', a rhaid wrth grefydd!

Ie, dyna brif 'brops' gwareiddiad, ac ydi, y mae crefydd yn un ohonyn nhw. Ac er bod llawer o grefyddau yn y byd, Cristnogaeth yw ein consýrn ni, a'r graddau y mae'r grefydd hon yn gynhaliaeth i fywyd yn ein hardaloedd ni. Fel yr awgrymais y mis diwethaf, fe fu felly yn bendant yn y gorffennol, ond beth am heddiw? Ar y naill law gellir enghreifftio methiannau mewn cymdeithas sy i bob pwrpas wedi colli'r ffordd, a phroblemau'n pentyrru nad oes, mae'n ymddangos, unrhyw ddatrysiad hawdd iddyn nhw. Pobol yn crwydro'n ddiamcan, ddigyfeiriad, ddiarweiniad am fod y ffens oedd yn eu cadw'n feddyliol rhag crwydro yn gwegian, a hynny am fod y polyn tynnu yn pydru. Neu, fel y dywedodd un (yn hynod angharedig, rhaid dweud), mai addoliad heddiw yw 'dry bones sitting on dry rot'.

Gadewch inni felly brysuro i edrych ar ochor arall y darlun ac ystyried i ba raddau y mae ein crefydd yn cynnal ein cymdeithas. Peth peryglus yw enwi ac enghreifftio, mi wn, ond y mae yna mewn gwahanol rannau o Gymru gapeli ac eglwysi sydd, fel Eglwys y Tabernacl yng Nghaerdydd, yn cynnal y gweiniaid mewn cymdeithas, ac yn gweithredu gyda sêl a brwdfrydedd. Y mae yna fugeiliaid y stryd mewn sawl man, megis Wrecsam, sy'n diystyru eu cyfforddusrwydd eu hunain er mwyn cynnal y 'defaid crwydrol'. Dwy enghraifft yn unig o'r math o weithredu cadarnhaol sy'n bodoli yn ein bröydd. A gallwn, o edrych ymhellach, fynd ymlaen i gyfeirio at y gwroniaid sy'n mentro'u bywydau ac yn gweithredu'n Gristnogol yn yr holl elusennau sy'n gweithio mewn mannau peryglus yn y byd: Achub y Plant, Oxfam, Cymorth Cristnogol. Byddai angen sawl tudalen o *Cenn@d* i'w henwi i gyd – pob un yn bolyn cynhaliaeth yn y mannau lle mae angen y gynhaliaeth honno.

Wrth ystyried cyflwr ein crefydd, a chyflwr ein byd heddiw, hawdd bod yn drist a negyddol, ac rwyf felly fy hun yn aml. Gadewch inni felly am unwaith ddiolch ein bod yn perthyn i gyfundrefn sy'n un o brif 'brops' gwareiddiad ac ymhyfrydu a gweithredu yng nghrefydd y polion!

*Elfyn Pritchard*

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 13 Gorffennaf, am 7:30yb a 2:00yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Carwyn Siddall, Llanuwchllyn

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 13 Gorffennaf, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Enid Morgan, Aberystwyth

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru